# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 6**

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

VALID FROM 05/05/2022

**PENNOD 2**

PWYLLGORAU LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO: AELODAETH A THRAFODION

### 116 Aelodaeth o bwyllgor llywodraethu ac archwilio

(1) Mae adran 82 o Fesur 2011 (aelodaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

(a) ym mharagraff (a) hepgorer y geiriau "o leiaf";

(b) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) bod un rhan o dair o aelodau'r pwyllgor hwnnw yn lleygwyr;".

(3) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) Mae pwyllgor llywodraethu ac archwilio i benodi—

(a) aelod o'r pwyllgor yn gadeirydd arno ("cadeirydd y pwyllgor"), a

(b) aelod o'r pwyllgor yn ddirprwy i gadeirydd y pwyllgor ("y dirprwy gadeirydd").

(5B) Rhaid i'r aelod a benodir yn gadeirydd y pwyllgor fod yn lleygwr.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/12/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, PENNOD 2. (See end of Document for details)*

(5C) Ni chaiff yr aelod a benodir yn ddirprwy gadeirydd fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol nac yn gynorthwyydd i'w weithrediaeth."

(4) Hepgorer is-adran (6).

(5) Yn Atodlen 10 i'r Ddeddf hon (diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â phwyllgorau llywodraethu ac archwilio), hepgorer paragraff 4(b)(ii) ac (f).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 116 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

## 117 Ystyr lleygwr

Yn adran 87 o Fesur 2011 (dehongli), yn is-adran (2) hepgorer y diffiniad o "aelod lleyg" a mewnosoder—

""ystyr "lleygwr" ("*lay person*") yw person—

(a) nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,

(b) nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben â'r dyddiad y penodir y person hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac

(c) nad yw'n briod nac yn bartner sifil i aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol;"

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 117 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

## 118 Trafodion etc.

(1) Mae adran 83 o Fesur 2011 (trafodion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adrannau (1) a (2) rhodder—

"(1) Mae cyfarfod o bwyllgor llywodraethu ac archwilio i'w gadeirio—

(a) gan gadeirydd y pwyllgor, neu

(b) os yw cadeirydd y pwyllgor yn absennol, gan y dirprwy gadeirydd.

(2) Os yw cadeirydd y pwyllgor a'r dirprwy gadeirydd ill dau yn absennol caiff y pwyllgor benodi aelod o'r pwyllgor nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol, nac yn gynorthwyydd i'w weithrediaeth, i gadeirio'r cyfarfod."

(3) Hepgorer is-adran (8).

(4) Yn Atodlen 6 i'r Ddeddf hon (cynorthwywyr gweithrediaethau), hepgorer paragraff 6(5).

(5) Yn Atodlen 10 i'r Ddeddf hon (diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â phwyllgorau llywodraethu ac archwilio), hepgorer paragraffau 5(a) a (b).

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/12/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, PENNOD 2. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I3** A. 118 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/12/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, PENNOD 2.